# PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD

**Dyddiad : 9 Mawrth, 2000**

**Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 1**

**Teitl: Cynlluniau ar gyfer y Fforwm Ewropeaidd nesaf**

## Diben

1. Hysbysu aelodau'r Pwyllgor ynglyn â chynlluniau'r fforwm nesaf.

## Argymhelliad

1. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad.

## Crynodeb

1. Y nod yw cynnal yr ail Fforwm Ewropeaidd fore Gwener 19 Mai yn Arena Rhyngwladol Caerdydd.

## Cefndir

1. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Fforwm Ewropeaidd Cymru ddydd Gwener 22 Hydref yn Arena Rhyngwladol Caerdydd, gyda dros 100 o gynrychiolwyr o amrediad eang o gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Bu'r diwrnod yn llwyddiannus, gyda'r gweithgorau a'r sesiynau llawn yn arwain at drafodaethau bywiog. Mae adroddiad llawn ar ddigwyddiadau'r dydd wedi'i baratoi, ac fe anfonir copi at yr holl gynrychiolwyr ac aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd cyn gynted ag y bo modd.

2.Yn ei gyfarfod ar 14 Hydref, cytunodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd gynnal ail Fforwm Ewropeaidd Cymru yn ystod y gwanwyn eleni. Yna, yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd cytunwyd y dylid cynnal ail gyfarfod y Fforwm yn y De. Cynhelir cyfarfod y Fforwm ym mis Hydref yn y Gogledd.

3.Yn dilyn profiad cyfarfod cyntaf y fforwm, bwriedir cwblhau gwaith yr ail gynhadledd mewn hanner diwrnod. Cynhelir cinio buffet ar ddiwedd sesiwn y bore. Yn Atodiad A ceir amlinelliad o raglen y dydd. Fe welwch o'r rhaglen y byddwn eto yn estyn gwahoddiad i un prif siaradwr i ategu thema gyffredinol y gynhadledd, sef "Ewrop a Busnes". Bydd trefn y Fforwm yn debyg i fformat cyfarfod yr Hydref, gyda chymysgedd o sesiynau llawn a sesiynau gweithgor. Testunau'r ail gyfarfod fforwm yw'r Ewro, Ehangu ac Ymchwil a Datblygiad.

4.Estynnir gwahoddiad i amrediad eang o gyrff y sector preifat yn ogystal â chyrff cyhoeddus ym maes datblygiad economaidd a busnes.

## Themâu trawsbynciol

Bydd amrediad eang o bartneriaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn cymryd rhan yn y Fforwm.

**Cydymffurfio**

Dan Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, gall y Cynulliad ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru gan gyflwyno sylwadau ar y materion hynny.

**Cyswllt**

Is-adran Materion Ewropeaidd